# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Proses Galw am Safleoedd (gan gynnwys y Canllaw Proses a Methodoleg Safleoedd Posib) |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Mae Cyngor Gwynedd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd (sef yr ardal o Wynedd a leolir tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri). Bwriad y Cynllun yma fydd cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion Gwynedd am y cyfnod hyd at 2039.<br><br>Pan fydd yn ei le, bydd y Cynllun yn llywio penderfyniadau ar gynigion datblygu a chyfarch anghenion a chyfleoedd yr ardal. Prif bwrpas y Cynllun Datblygu Lleol yw rhoi arweiniad ar y mathau o ddatblygiadau sydd yn addas mewn lleoliadau gwahanol. |

Yn unol â gofynion statudol mae'n ofynnol dilyn cyfres o gamau wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Y broses o 'Alw am Safleoedd' yw un o'r camau cyntaf yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau gwybod am safleoedd posib a allai fod yn addas i'w datblygu a'u gwarchod o fewn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl). Estynnir gwahoddiad i'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, datblygwyr a tirfeddianwyr gyflwyno Safleoedd Posib i'w cynnwys yn y Cynllun. Mae'r proses Galw am Safleoedd yn gam pwysig i gasglu tystiolaeth i lunio polisïau a mapiau mewnosod y cynllun newydd.

Mae'r Canllaw cysylltiedig yn pennu'r broses a'r fethodoleg a ddefnyddir i asesu addasrwydd y safleoedd datblygu posibl (a adnabyddir fel Safleoedd Posib) i'w cynnwys yn CDLl Gwynedd fel dynodiadau datblygu neu safleoedd mewnlenwi.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Linda Lee, Uwch Swyddog Cynllunio (Polisi).

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Rhanddeiliad Allweddol / Ymgynghorwyr Statudol
- Pobol Gwynedd
- Pobol sydd wedi dangos diddordeb yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol neu wedi rhoi sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
- Mudiadau sy'n cefnogi neu gynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb penodol â'i aelodau
- Mudiadau Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru

(Mae Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni yn gosod allan rhestr budd-ddeiliaid yn llawn)

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

- Mae gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio bas data o bawb sydd wedi datgan diddordeb yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r bas data hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid statudol ac anstatudol. Mae dros 1300 o bobl/mudiadau ar y bas data. Bydd pawb sydd ar y bas data yn derbyn llythyr neu e-bost yn ei hysbysebu bod y cyfnod Galw am Safle wedi agor.
- Modd i gwblhau'r ffurflen mewn yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Mae'n bosib rhoi cais i gael copi o'r ffurflen mewn unrhyw iaith arall hefyd ac mewn print bras. Bydd copïau papur o'r ffurflen cynnig safle ar gael yn y llyfrgelloedd a Siop Gwynedd.
- Ffurflen Cynnig Safle Posib ar gael mewn gwahanol fformatau - ar lein, electronig neu gopi papur
- Bydd unrhyw un yn gallu cysylltu hefo swyddogion y Gwasanaeth am gymorth/arweiniad i lenwi'r ffurflen dros y ffôn neu yn wyneb yn wyneb.
- Proses codi ymwybyddiaeth wedi ei gynnal gan gynnwys Swyddog o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn rhoi cyflwyniad i'r Grŵp Craidd cydraddoldeb. Gwnaethpwyd hynny er mwyn ceisio sicrhau fod cynrychiolwyr o grwpiau sydd yn anodd ei gyrraedd ac yn cynrychioli nodweddion gwarchodedig yn ymwybodol o'r cyfnod 'Galw am Safleoedd'.
- Bydd yr asesiad yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog gyda'r holl ohebiaeth a dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Proses ymgysylltu heb ei gynnal, felly'r canlyniad yn gynamserol. Bydd yr Asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn y cyfnod 'Galw am Safleoedd'.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Y Galw am Safleoedd Posib yw'r cam ffurfiol cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl Gwynedd yn dilyn cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni.

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan y rheoliadau rhaid ei ddilyn wrth baratoi Cytundeb Cyflawni.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn flaenoriaeth yn Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

Mae Llawlyfr y CDLl yn awgrymu paratoi canllawiau o ran asesu addasrwydd safleoedd posib er bod yn gwbl dryloyw.

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na. Mae'r Llawlyfr CDLl yn nodi'r broses a sut y dylid asesu safleoedd.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Bwth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl.<br><br>Dim effaith wedi ei adnabod hyd yma. |
| **Anabledd** | Positif | Bydd ffurflen cynnig safle ar gael ar-lein. Copïau papur o'r ffurflen cynnig ar gael os oes angen neu mewn print bras. Mi fydd copïau papur ar gael yn llyfrgelloedd Gwynedd ag yn Siop Gwynedd Caernarfon, Dolgellau a Pwllheli.<br><br>Mi fydd Swyddogion o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gael i helpu gyda'r proses cynnig safleoedd dros y ffôn neu yn wyneb i wyneb. Gobeithir y bydd argaeledd Swyddogion i roi cymorth yn ôl yr angen yn hwyluso'r broses o gyflwyno safle ac yn sicrhau ei fod yn broses sydd yn hygyrch i bawb. |
| **Rhyw** | Dim | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl. |
| **Oedran** | Positif | Bydd ffurflen cynnig safle ar gael ar-lein. Copïau papur o'r ffurflen cynnig ar gael os oes angen neu ar brint bras. Mi fydd copïau ar gael yn llyfrgelloedd Gwynedd ac yn Siop Gwynedd Caernarfon, Dolgellau a Phwllheli. Mae sicrhau argaeledd copïau papur yn eithriadol o bwysig i bobl sydd ddim hefo mynediad i'r we, gan gynnwys yn aml bobl hyn.<br><br>Mi fydd Swyddogion o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gael i helpu gyda'r proses cynnig safleoedd dros y ffôn neu yn wyneb i wyneb. Gobeithir y bydd argaeledd Swyddogion i roi cymorth yn ôl yr angen yn hwyluso'r broses o gyflwyno safle ac yn sicrhau ei fod yn broses sydd yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd ddim hefo mynediad i'r we. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl.<br><br>Dim effaith wedi ei adnabod hyd yma. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl.<br><br>Dim effaith wedi ei adnabod hyd yma. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl.<br><br>Dim effaith wedi ei adnabod hyd yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl.<br><br>Dim effaith wedi ei adnabod hyd yma. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl.<br><br>Dim effaith wedi ei adnabod hyd yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd yr holl ddeunydd yn gysylltiedig â'r broses Galw am safleoedd ar gael yn y Gymraeg. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Bydd ffurflen cynnig safle ar gael ar-lein. Copïau papur o'r ffurflen cynnig ar gael os oes angen neu ar brint bras' Mi fydd copïau ar gael yn llyfrgelloedd Gwynedd ag yn Siop Gwynedd Caernarfon, Dolgellau a Pwllheli.<br><br>Bydd swyddogion o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gael i helpu gyda'r proses cynnig safleoedd dros y ffôn neu wyneb i wyneb.<br><br>Bydd y broses Galw am Safleoedd yn arwain at adnabod tiroedd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ystod o ddefnyddiau, gan gynnwys tai fforddiadwy, llecynnau agored a rhai cymunedol. Gobeithir y bydd y ddarpariaeth o diroedd o fewn y Cynllun ar gyfer y dibenion hyn yn diwallu anghenion trigolion lleol ac yn darparu ar gyfer ceisio lleddfu'r anfantais economaidd-gymdeithasol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Dim effaith wedi ei nodi |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno safle i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl, gan hynny mae yna gyfleoedd cyfartal yn bodoli i bawb allu cyflwyno safle.<br><br>Mae mesurau hefyd wedi ei gymryd i godi ymwybyddiaeth o'r broses er mwyn sicrhau fod unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig yn ymwybodol o'r broses. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae'r cyfnod Galw am Safleoedd yn rhoi cyfle i bobl/rhanddeiliad fod yn rhan o'r CDLl yn gynnar yn y broses. Gobeithir y bydd hyn yn fodd o feithrin perthynas dda ar gyfer y dyfodol a'r cyfraniad gwerthfawr a fydd yn deillio yn y camau dilynol a'r cyfnodau ymgysylltu hanfodol cysylltiedig â pharatoi Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Un o brif amcanion y Cynllun yw ceisio creu cymunedau cynhwysol a darparu ar gyfer diwallu anghenion poblogaeth Gwynedd. Bydd meithrin perthynas dda o'r cam cyntaf yn sicrhau fod y Cynllun yn darparu ar gyfer yr anghenion hynny. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Bydd yr asesiad yn cael ei weithredu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg, gyda'r holl ddogfennau yn cael eu rhyddhau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ddiofyn. Mi fydd Swyddogion o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gael i helpu gyda'r broses cynnig safleoedd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb drwy'r Gymraeg heb oedi.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Byddwn yn sicrhau bydd unrhyw ohebiaeth, cyfarfodydd cyhoeddus neu dogfennau ymgynghorol yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg, a sicrhau na fydd dewis cysylltu â'r swyddogion yn Gymraeg yn arwain at oedi mewn ymateb.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Bydd ffurflen cynnig safle ar gael ar-lein. Copïau papur o'r ffurflen cynnig ar gael os oes angen neu ar brint bras' Mi fydd copïau ar gael yn llyfrgelloedd Gwynedd ag yn Siop Gwynedd Caernarfon, Dolgellau a Pwllheli.<br><br>Bydd swyddogion o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gael i helpu gyda'r proses cynnig safleoedd dros y ffôn neu wyneb i wyneb.<br><br>Bydd y broses o Alw am Safleoedd yn helpu'r Cynllun Datblygu Lleol adnabod tir ar gyfer ystod o ddefnyddiau yn cynnwys tai fforddiadwy, llecynnau agored gwyrdd a rhai cymunedol. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Monitro'r uchod wrth i broses o greu'r Cynllun Datblygu Lleol mynd yn ei flaen. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Yndi.<br><br>Mae'r broses Galw am Safleoedd yn debygol o gael effaith bositif. Mae'n broses gynhwysol sydd yn hygyrch ac yn rhydd i bawb ymateb iddo.<br><br>Pwrpas y Galw am Safleoedd yw hel gwybodaeth i helpu llunio polisïau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Bwriad y Cynllun yma fydd cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion Gwynedd am y cyfnod hyd at 2039. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Monitro adborth yn barhaus. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd pob safle a gynigir yn cael ei roi ar gofrestr cyhoeddus. Bydd y gofrestr yn rhan o ymgynghoriad statudol cyhoeddus yn 2025 a bydd unrhyw sylw ar y safleoedd yn cael ei hasesu.<br><br>Bydd y broses o baratoi y Cynllun datblygu yn destun Asesiad Effaith cynhwysfawr drwy gydol y daith. Bydd yr asesiad hyn yn cael ei adolygu a'i addasu yn ôl yr angen. |